

Holi am Hanes - Gofyn y cwestiynau iawn gan Ella Owens

Ydych chi erioed wedi gofyn cwestiwn arweiniodd at ateb gwirion? Do?

Wel dyna i chi enghraifft o gwestiwn gwirion. Cwestiwn gafodd un gair fel ateb. Byddwn wedi hoffi cael gwybod beth oedd y cwestiwn gwirion!
Wrth fynd ati i holi ei nain yn ddiweddar am 'evacuees' cafodd John drws nesa atebion swta/byr iawn. Dim yr atebion y byddai wedi hoffi eu cael gafodd o.

Dyma rai o'i gwestiynau:

- **Ydych chi'n cofio'r 'evacuees' yn cyrraedd?**
Yndw
- **Oedd yna lawer ohonyn nhw?**
Oedd
- **Pa iaith oedden nhw'n siarad?**
Saesneg
- **Faint oedd eich oed chi pan gyrhaeddod nhw?**
Saith

Llwyddodd John i gael ychydig o wybodaeth, ond dim llawer. Wyddoch chi pam? Roedd yr atebion yn rai un gair. Nid ar Nain John yr oedd y bai, ond ar y cwestiynau.

Tybed a fyddai'r rhain yn gweithio yn well?

- **Pam** ddaeth yr evacuees yma i aros?
- **Beth** wyddoch chi amdanyn nhw?
- **Sut** y gwnaeth y dieithriaid yma newid eich bywyd chi fel teulu, a bywyd yr ardal?

Dyma'r atebion a gafodd John y tro yma:

- **Pam ddaeth yr evacuees yma i aros?**
Roedd yn rhaid iddynt adael eu cartrefi yn y dinasoedd mawr – Lerpwl, Manceinion a Llundain gan eu bod mewn perygl o gael eu bomio. Anfonwyd nhw i gefn gwlad ble y byddent yn saffach ond golygai hyn fod yn rhaid iddynt adael eu rheni ar ôl.
- **Beth wyddoch chi amdanyn nhw?**
Roedd yr evacuees a ddaeth yma atom ni yn dod o Scotland Road yn Lerpwl. Roedd hon yn ardal dlodaidd iawn o Lerpwl. Doedden nhw ddim yn siarad dim Cymraeg, a ninnau yn siarad dim Saesneg. Daethant a heintiau nad oeddem wedi clywed amdanynt gyda nhw - Scabies ac Impetigo. Roedd y ddau yn haint ar y croen. Roedd yn rhaid i ni gael bath sylffwr bob nos i gael gward ohono, a gan nad oedd gennym ddŵr yn dod allan o dap, roedd hyn yn dipyn o strach. Roedd yn rhaid nôl y dwr o'r ffynnon a'i gynhesu ar y tân cyn camu mewn i'r bath tin. Rwyf yn dal i gofio'r arogl.
- **Sut y gwnaeth y dieithriaid yma newid eich bywyd chi fel teulu, a bywyd yr ardal?**
Newidiodd naws yr ysgol a'r pentref yn llwyr. Aeth o fod yn lle

Cymreigaidd iawn i fod yn le lle clywech Saesneg ar yr iard neu'r stryd. Roedd y faciws yn dysgu Cymraeg yn gyflym, ond nid oedd yr un fath wedyn. Roedd y pentref yn llawn o bobl ddieithr oedd am gyfnod yn methu cyfathrebu gyda ni. Yn hytrach na bod dau neu dri o blant ar yr aelwyd, yn sydyn roedd yna bump neu chwech, ac roedd ambell i 'hen ferch' wedi gorfod cymryd rhai hefyd gan fod ganddynt le yn y tŷ. Roedd gwr a gwraig ddi blant hefyd yn gorfod cartrefu evacuees er nad oedd ganddynt syniad o gwbl am fagu plant. Roedd llawer ohonynt yn hyn ac yn fwy na ni ac am y tro cyntaf cefais fy mwlio. Rhedais gartref o'r ysgol unwaith i osgoi merch oedd yn gas tuag ataf a baglais ar fy hyd gan frifo fy mhen-glin. Bum o'r ysgol am wythnos tra'r oedd yn gwella. Mae'r graith dal gen i i gofio am y digwyddiad. Dychwelodd y rhan fwyaf i Lerpwl ar ddiwedd y rhyfel byd, ond arhosodd un neu ddau gan na ddaeth neb i'w nôl. Mae yna rai dal yn yr ardal hyd heddiw a heb syniad o gwbl o beth ddigwyddodd i'w rhieni.

Dyna welliant. Mae John wedi cael yr atebion yr oedd eu hangen ar gyfer gwneud ei waith cartref. Cofiwch chithau. Os am atebion call, **gofynnwch y cwestiynau iawn!**



Gwaith Maes :: Rhifyn 35